# Delio â phryderon am ddiogelu

Ni ddylai neb ddioddef unrhyw fath o gam-drin ar unrhyw adeg, a'n cyfrifoldeb ni yw cadw pawb yn ddiogel. Mae'r ddogfen hon ar gyfer pob gwirfoddolwr, ac mae'n nodyn atgoffa i'ch helpu i ddelio â phryder diogelu.

Dylech ei ddarllen nawr, a chadw copi gyda chi yn ystod holl weithgareddau'r clwb. Gallwch wastad dod o hyd i'n cymorth diogelu diweddaraf yn **raspberrypi.org/safeguarding**.

## Y Pump A

Rydyn ni'n defnyddio'r pump A wrth ddelio â phryderon o ran diogelu:

Adnabod: Gwybod sut mae adnabod arwyddion o gam-drin
Ateb: Gwybod pa ateb i'w roi i'r mater
Arsylwi: Gwneud nodyn clir o beth oedd wedi'i ddweud neu'r hyn oeddech chi wedi'i arsylwi
Adrodd: Siarad ag arweinydd diogelu cyn gynted â phosibl
Atgyfeirio: Rhoi gwybod i dîm diogelu'r Raspberry Pi Foundation — rydyn ni yma i'ch helpu chi!

## Sut mae adnabod arwyddion o gam-drin

Nid yw arwyddion cam-drin plant bob amser yn amlwg, ond gallant gynnwys:

- Yn ymddangos yn fudr, yn llwglyd neu wedi gwisgo'n annigonol yn rheolaidd
- Yn ofnu rhieni neu ofalwyr yn ôl pob golwg
- Wedi cael cleisio neu anafu'n ddifrifol neu ymddangos nad ydych wedi derbyn sylw meddygol priodol
- Yn dangos ymddygiad rhywiol nad yw'n briodol i'w oedran
- Yn cael ei fychanu a'i sarhau yn gyson, neu fod rhywun yn rhegi neu'n codi cywilydd arno yn gyson
- Arwyddion eraill sy'n peri pryder i chi nad ydynt wedi'u rhestru yma

Mae Code Club yn rhan o'r Raspberry Pi Foundation, elusen gofrestredig yn y DU 1129409

# Delio â phryderon am ddiogelu

## Sut i ymateb i ddatgeliad

Tra bod y person ifanc yn siarad â chi:

- Ymateb yn bwyllog. Gall ymateb cryf ddychryn y person ifanc a chynyddu unrhyw deimladau o bryder neu euogrwydd.
- Gwrando'n ofalus ac yn astud, a chymryd y person ifanc o ddifri.
- Rhoi sicrwydd i'r person ifanc ei fod wedi gwneud y peth iawn drwy siarad â chi.
- Peidio â gwneud addewidion, yn enwedig o ran cyfrinachedd.
- Os bydd y person ifanc yn dweud rhywbeth a allai roi ei ddiogelwch neu ei lesiant mewn perygl, rhaid egluro y bydd yn rhaid i chi ddweud wrth rywun arall sy'n gyfrifol am ei ddiogelwch a'i lesiant.
- Peidio â gofyn i'r person ifanc ailadrodd y stori yn ddiangen.
- Gofyn cwestiynau dim ond i gael eglurhad. Bod yn gefnogol ond peidio â gofyn cwestiynau arweiniol na mynd ar drywydd manylion y tu hwnt i'r rhai mae'r person ifanc yn eu darparu.
- Gwirio gyda'r person ifanc i wneud yn siŵr eich bod wedi clywed a deall yn gywir.
- Peidio â mynegi unrhyw farn am y cam-drin neu'r camdriniwr honedig.

## Adrodd, cofnodi a chyfeirio'r datgeliad

Rhaid i chi gofnodi, adrodd, a gyfeirio unrhyw ddatgeliadau a wneir i chi, ac unrhyw bryderon sydd gennych fod person ifanc yn dioddef cam-drin, neu fod rhywun yn cyflawni cam-drin, cyn gynted â phosibl:

1. Cofiwch, eich rôl chi yw cyfeirio, nid ymchwilio!

2. Ysgrifennwch eich pryderon i lawr:
   - Nodwch yn glir beth welsoch neu glywsoch
   - Defnyddiwch ffeithiau, nid barn
   - Cofnodwch y dyddiadau a'r amseroedd a llofnodwch y ddogfen

3. Trin yr holl wybodaeth yn gyfrinachol a'i rhannu dim ond â phobl eraill sydd angen gwybod am y datgeliad neu'r pryder
   - Os yw person ifanc mewn perygl uniongyrchol o niwed sylweddol, rhaid i chi ffonio'r heddlu
   - Os yw eich pryder yn un brys, ffoniwch ein gwasanaeth cymorth dros y ffôn 24 awr
     I'r byd i gyd: +44 (0) 203 6377 112
     Ar gyfer y DU yn unig: +44 (0) 800 1337 112

4. Rhaid i chi roi gwybod am yr hyn sydd wedi digwydd i dîm diogelu'r Raspberry Pi Foundation cyn gynted â phosibl
   - Ewch i raspberrypi.org/safeguarding a chliciwch ar y ffurflen adrodd diogelu
   - Darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl
   - Bydd aelod o'n tîm mewn cysylltiad â chi ar y diwrnod gwaith nesaf yn y DU

5. Os yw eich Code Club yn cyfarfod mewn ysgol neu leoliad arall sydd â'i system ddiogelu ei hun ar waith:
   - Rhaid i chi hefyd ddilyn eu proses adrodd diogelu
   - Rhaid i chi ddweud wrth eu harweinydd diogelu eich bod wedi hysbysu tîm diogelu'r Raspberry Pi Foundation